# Y mesurau perfformiad ôl-16 cyson

## Diweddariad | Chwefror 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r nodyn briffio hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau perfformiad ôl-16 cyson.

Cliciwch yma ar gyfer y **rhestr chwarae Hwb** wedi ei diweddaru sy'n rhoi crynodeb o ddatblygiad y mesurau.

Rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw agweddau ar y mesurau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch nhw i post16quality@llyw.cymru.

I **danysgrifio** i gopïau o'r cylchlythyr tymhorol hwn, cofrestrwch yma

## Y mesurau:

| | |
|---|---|
| **Cyflawniad** | Cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru. |
| **Gwerth ychwanegol** | Y cynnydd sydd wedi'i wneud gan ddysgwyr, ar ben yr hyn a ddisgwylir fel arfer yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhyw |
| **Cyrchfannau** | Cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth. |

## Cyflawniad

- Rydym am ddychwelyd i'r trefniadau gwreiddiol (cyn Covid), a byddwn yn cyhoeddi **adroddiadau cyflawni terfynol 2022/23** ar gyfer ysgolion a cholegau, ynghyd â'r datganiad ystadegol ar fesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad) ym mis Mawrth 2024. Caiff adroddiadau ar gyfer ysgolion a cholegau unigol eu rhannu ag Estyn.
- Mae'r adroddiadau ar gael i golegau drwy **Objective Connect**. Maent ar gael i ysgolion drwy **DEWi**. Anfonir e-bost unwaith y bydd yr adroddiadau ar gael.

## Gwerth ychwanegol

- Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n asesu p'un a oes modd i'r meincnodau cyd-destunol (a gyhoeddir ochr yn ochr â'r data cyflawni) ddisodli mesur arall, gan eu bod nhw hefyd yn ystyried nodweddion a pherfformiad blaenorol dysgwyr.

## Cyrchfannau

- Cyhoeddwyd yr ystadegau cenedlaethol am gyrchfannau **dysgwyr wnaeth gwblhau neu roi'r gorau i'w rhaglen ddysgu yn 2020/21** ar 31 Hydref 2023.
- Cyhoeddwyd yr **adroddiadau ar gyfer ysgolion a cholegau unigol** ar gyfer 2020/21 ym mis Ionawr 2024 (drwy **Objective Connect** ar gyfer addysg bellach, a thrwy **DEWi** ar gyfer ysgolion). Os nad ydych wedi gallu gweld eich adroddiadau, anfonwch e-bost i post16quality@llyw.cymru.
- Mae'r mesur hwn yn cael ei gyhoeddi ar amserlen wahanol i'r mesurau cyflawni (er mwyn rhoi amser i ddysgwyr symud ymlaen i gyrchfan parhaus ac i'w data gael eu casglu, eu paru a'u dadansoddi).

| *Yr hyn y mae ysgolion a cholegau eisoes wedi'i dderbyn/sydd ar gael i'r cyhoedd a'r hyn rydym yn bwriadu ei gyhoeddi:* | |
|---|---|
| **Cyflawniad** | |
| ☑ Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19 (mae'r diwethaf yn cynnwys meincnodau demograffig) | ☑ Ystadegau Cymru gyfan ar y mesurau Cyflawni ar gyfer 2016/17, 2017/18, 2018/19 & 2021/22 |
| ☒ Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2019/20 & 2020/21 (oherwydd bod COVID-19 wedi amharu ar ddysgu) | ☒ Ystadegau Cymru gyfan ar ddeilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19) ar gyfer 2019/20 & 2020/21 |
| ☑ Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2021/22 – dim ond at ddefnydd ysgolion a cholegau y caiff y rhain eu llunio (ni chânt eu rhannu ag Estyn) | ☑ Ystadegau Cymru gyfan ar y mesurau Cyflawni ar gyfer 2021/22 |
| ☐ Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2022/23 (disgwylir mis Mawrth 2024) | ☐ Ystadegau Cymru gyfan ar y mesurau Cyrchfannau ar gyfer 2022/23 (disgwylir mis Mawrth 2024) |
| **Cyrchfannau** | |
| ☑ Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2015/16 & 2016/17 & 2020/21 | ☑ Ystadegau Cymru gyfan ar y mesurau Cyrchfannau ar gyfer 2015/16, 2016/17, 2017/18, 2018/19, 2019/20 & 2020/21 |
| ☐ Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2021/22 (disgwylir mis Medi 2024) | ☐ Ystadegau Cymru gyfan ar y mesurau Cyrchfannau ar gyfer 2021/22 (disgwylir mis Medi 2024) |

## Data eraill

- Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data chweched dosbarth ar lefel ysgolion bellach, a oedd yn arfer ymddangos yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (trothwy Lefel 3 a'r sgoriau pwyntiau ehangach). Bydd y canlyniadau arholiadau cenedlaethol a gaiff eu cyhoeddi yn parhau i ddilyn fformat dosbarthiad graddau crai a ddefnyddiwyd drwy gydol y pandemig.

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY)

- Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn gorff hyd-braich newydd a fydd yn gyfrifol am gyllido a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 **o fis Awst 2024**. Mae'r dyddiad gwreiddiol, sef 1 Ebrill 2024, wedi ei newid, fel y nodwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 24 Ionawr 20204.
- Bydd hyn yn cynnwys addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, dosbarthiadau chwech, addysg oedolion, a gwaith ymchwil ac arloesi a ariennir gan y llywodraeth.
- Mae cyfres o daflenni ffeithiau wedi cael eu datblygu er mwyn dangos sut y bydd sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn effeithio ar leoliadau addysg.
- I gael gwybod mwy, ewch i https://www.llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil